



→ **Adolygiad o'r broses Trwyddedu Morol
o'r dechrau i'r diwedd: adroddiad
crvno**

**Matt Bassford, Dickon Howell, Caroline Hattam, Kathryn
Collins, Natalie Clare, Jess Lyon**

7 Hydref 2022

Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Tabl Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	1
2. Pwrpas, amcanion a dull	3
2.1 Pwrpas yr adolygiad.....	3
2.2 Cyd-destun.....	3
2.3 Nodau ac amcanion	4
2.4 Methodoleg a thystiolaeth.....	5
3. Canfyddiadau	Error! Bookmark not defined.
3.1 Pa mor dda mae'r broses yn gweithio ar bob cam?	7
3.2 A oes trefniadau llywodraethu addas ar waith?	9
3.3 A yw'r broses drwyddedu yn cyfateb i'r risgiau sydd ynghlwm?	10
3.4 Sut mae'r broses yn alinio â phrosesau trwyddedu a threfniadau cydsyniad eraill?... 11	
4. Argymhellion	Error! Bookmark not defined.
4.1 Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
4.2 Pennu hunaniaeth gorfforaethol unigryw o ran trwyddedu morol.....	14
4.3 Dull strategol o gynllunio a dod o hyd i adnoddau i sicrhau bod yr adnoddau'n ddigonol i ateb y galw cynyddol.....	15
4.4 Gwella tryloywder, eglurder ac effeithlonrwydd y broses	16
4.5 Arferion gwaith cydweithredol a rhagor o ffocws ar alluogi	17
4.6 Rolau a swyddogaethau ym maes trwyddedu morol	18
4.7 Defnyddio'r dystiolaeth orau a'r wyddoniaeth gadarn sydd ar gael i alluogi dull trwyddedu morol mwy cyfatebol	19

Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r adroddiad hwn yn bosibl heb gymorth cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod mewnbwn amhrisiadwy ystod eang o randdeiliaid allanol (gan gynnwys datblygwyr, ymgynghoreion ac eraill sydd â diddordeb mewn trwyddedu morol). Hoffai tîm yr astudiaeth ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth a chyfrannodd at yr ymchwil hwn.

Cafodd yr astudiaeth ei noddi gan Gangen Cynllunio Morol a Thrwyddedu Morol Llywodraeth Cymru, a charem ddiolch am yr amgylchedd adeiladol a chydweithredol a grëwyd, lle roedd modd cyflawni'r astudiaeth hon.

Mae tîm yr astudiaeth yn hollol gyfrifol am ddehongliad y dystiolaeth a ddaeth i law, canfyddiadau'r gwaith ac unrhyw gamgymeriadau a allai ymddangos yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am ICF, neu'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Matt Bassford | Cyfarwyddwr Ymgynghorol, Economeg, Materion Cartref a'r Amgylchedd
ICF Consulting Ltd

Riverscape, 10 Queen Street Place

Llundain EC4R 1BE

+44 7950 897909

matt.bassford@icf.com

1. Crynodeb gweithredol

Fis Ebrill 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru (LIC) ICF i arwain adolygiad o'r broses trwyddedu morol. Diben yr adolygiad oedd nodi cyfleoedd i wella a symleiddio'r broses drwyddedu er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru, wrth sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.

Yn ystod yr arolwg, defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg gan gynnwys llawer iawn o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, a chyda chyfundrefnau trwyddedu eraill. Dadansoddwyd tystiolaeth gan ystod o ffynonellau, cyn ei thriogli i greu canfyddiadau a llywio argymhellion yr astudiaeth.

Cafodd tîm yr astudiaeth gyfarwyddiadau i nodi'r newidiadau oedd eu hangen i'r broses i ateb y galw yn y dyfodol am drwyddedu morol, i gefnogi amcan polisi'r Llywodraeth i gynyddu'n sylweddol swm yr ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Oherwydd hyn, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella yn y broses trwyddedu morol yng Nghymru, a gaiff ei gweinyddu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ran Gweinidogion Cymru.

Ar yr un pryd, mae hi'n bwysig nodi fod meysydd lle mae'r broses yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa lai a sectorau sefydledig, lle mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n cael eu cymeradwyo neu eu gwrthod yn brydlon. Mae'r adroddiad technegol hefyd yn amlygu meysydd o arfer da presennol yn y broses drwyddedu, a sut gellid adeiladu ar y rhain. Nododd y tîm adolygu hefyd y newidiadau cadarnhaol yr oedd CNC wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r broses drwyddedu (a'r gweithredoedd sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd).

Dyma'r prif feysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr adolygiad:

- Er bod prosiectau Band 1 a Band 2 symlach yn cael eu prosesu o fewn terfynau amser Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA), mae diffyg eglurder o ran terfynau amser prosiectau mwy, sy'n rhoi polisi'r Llywodraeth o uwchraddio ynni adnewyddadwy a bodloni ymrwymadau sero net mewn perygl.
- Nid yw'r cyfleusterau ar-lein presennol yn addas at y diben, sy'n arwain at ddiffyg eglurder ymysg ymgeiswyr ac oedi posibl yn y broses drwyddedu.
- Mae amharodrwydd i neilltuo materion â llai o risg, a all bylu ffocws y rhai ag effaith fwyaf; mae enghreifftiau o reoli addasadwy, ond rhaid i'r rheolydd fod yn hyderus yn gweithio fel hyn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y dull hwn.
- Weithiau, ceir ffiniau aneglur rhwng rolau trwyddedu morol ac ymgynghorol yn CNC; a sut mae'r cyngor a roddir yn berthnasol i gyfrifoldebau statudol.
- Mae'r llwyth gwaith trwyddedu morol yn CNC wedi cynyddu, heb gynydd o'r fath i adnoddau, sy'n arwain at ddull darpariaeth ymatebol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n

anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol, a rhagweld heriau yn y dyfodol a chyflawni gwelliannau.

Er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad, datblygwyd chwech o argymhellion thematig.

- a) Pennu hunaniaeth gorfforaethol unigryw i drwyddedu morol yn CNC er mwyn cynnig rhagor o ffocws ar ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r adnoddau sydd eu hangen
- b) Dull strategol o ran cynllunio a dod o hyd i adnoddau er mwyn sicrhau bod adnoddau'n ateb y galw yn y dyfodol am weithgareddau trwyddedu morol (o ran capasiti a chymhwysedd sefydliadol)
- c) Gwelliannau i dryloywder, eglurder y broses ac effeithlonrwydd, gan gynnwys datblygiad a gweithrediad porth ar-lein ar gyfer trwyddedu morol
- d) Arferion gwaith cydweithredol a rhagor o ffocws ar greu diwylliant sy'n galluogi, yn enwedig yn ystod yr ymgysylltu cyn-ymgeisio rhwng CNC a datblygwyr
- e) Eglurder o ran rolau a swyddogaethau trwyddedu morol, er mwyn cyflymu'r broses benderfynu
- f) Fframwaith strategol a chanllawiau gweithredol i gynyddu hyder a chymhwysedd wrth ddefnyddio'r dystiolaeth a'r wyddoniaeth gadarn orau sydd ar gael, gan alluogi dull trwyddedu morol mwy cyfatebol.

Gwn fod cyflawni'r argymhellion hyn yn heriol iawn, a bydd angen rhagor o adnoddau ac ymrwymiad ar lefel uwch. Hefyd, mae gan ddatblygwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant ran i'w chwarae i gefnogi dyheadau'r sector gan gynnwys ymdrech o'r newydd o ran arferion gwaith cydweithredol a chyfathrebu gyda CNC a LIC, ymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol cyn gwneud cais a chydweithio i gasglu a rhannu tystiolaeth. O ystyried yr heriau ynghlwm wrth ystyried risg ac effaith ceisiadau sy'n ymwneud â thechnolegau newydd, sydd heb lawer o sail dystiolaeth, mae hyn yn fwy arwyddocaol.

2. Pwrpas, amcanion a dull

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o gyd-destun yr adolygiad, ei nodau ac amcanion, a'r fethodoleg.

2.1 Pwrpas yr adolygiad

Mae'r camau gweithredu sydd angen i Gymru eu rhoi ar waith i fodloni ei hail gyllideb carbon (2021-2025) wedi'u nodi yng Nghymru Sero Net, sy'n darparu'r sail ar gyfer lleihau allyriadau hirdymor ac yn ymrwymo i gynhyrchu ynni drwy dechnolegau adnewyddadwy. Arweiniodd cyhoeddiad Cymru Sero Net LIC i gynnal 'adolygiad manwl' (deep dive) yn ystod hydref 2021, a nodi rhwystrau o ran uwchraddio cynhyrchiad ynni adnewyddadwy yn sylweddol yng Nghymru, a'r camau gweithredu i oresgyn yr heriau hynny.

Un o argymhellion penodol yr adolygiad hwnnw oedd cynnal adolygiad o drwyddedu a chydysniad morol o'r dechrau i'r diwedd gyda'r nod o wella'r broses. Ym mis Ebrill 2022, comisiynodd LIC ICF (mewn partneriaeth â HMC a CMC) i gynnal yr adolygiad hwn. Bydd yr allbynnau'n cael eu defnyddio gan LIC a CNC i lywio datblygiad polisiau a newidiadau cyflawni gweithredol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau, ac argymhellion yr adolygiad. Mae LIC a CNC wedi derbyn adroddiad technegol hirach, gyda rhagor o fanylion ar y dull a'r canfyddiadau.

2.2 Cyd-destun

Mae'r broses trwyddedu morol yn cefnogi defnyddio'r amgylchedd morol yn gynaliadwy. Mae'n berthnasol i ystod eang o weithgareddau o waith trwsio mân i lithrfa, datblygu cynllun amddiffyn arfordirol newydd i adeiladu a gweithredu fferm wynt alltraeth mawr. Mae'r broses drwyddedu'n sicrhau nad yw gweithgareddau o'r fath yn niweidio'r amgylchedd, yn effeithio ar iechyd bodau dynol, na'n tarfu ar ddefnyddiau cyfreithlon eraill y moroedd.

Ym mis Ebrill 2013, rhoddodd Gweinidogion Cymru swyddogaethau gweinyddu a phennu trwyddedu morol i CNC a oedd newydd ei sefydlu ar y pryd.¹ Fodd bynnag, LIC sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad polisi cyffredinol, rheoli apeliadau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol, a chyflwyno deddfwriaeth eilradd i gefnogi'r broses (er enghraifft, diffinio ffioedd trwyddedu morol). Mae Tîm Polisiau Morol LIC yn gweithio'n agos â CNC i gefnogi cyflawniad swyddogaethau trwyddedu Gweinidogion Cymru yn unol â pholisiau LIC. Crynhoir rolau ategol LIC a CNC yn Nhabl 1.

¹ Pwrpas cyffredinol CNC, fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), yw rheoli'n gynaliadwy adnoddau naturiol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion ar rolau a chyfrifoldebau CNC [yma](#).

Sefydliad	Cyfrifoldebau
Llywodraeth Cymru (LIC)	<ul style="list-style-type: none"> Awdurdod trwyddedu morol Cymru a'r awdurdod cymwys ar gyfer cydsyniad Adran 36 Gosod y cyfeiriad polisi cyffredinol Rheoli apeliadau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol Paratoi deddfwriaeth eilradd i gefnogi'r broses (e.e. ffioedd) Gorfodi trwyddedu morol yn nyfroedd Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ²	<ul style="list-style-type: none"> Gweinyddu ac yn penderfynu ar geisiadau trwyddedu morol ar ran Gweinidogion Cymru (Tîm Trwyddedu Morol neu Drwyddedu Morol CNC) Darparu rôl y Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) Rhoi cyngor technegol o ran ei swyddogaethau rheoliadol Cefnogi Swyddogion Gorfodi Morol i roi cyngor ar achosion posibl o dorri rheolau Cymhwyso egwyddorion rheoliadol wrth wneud penderfyniadau Cynnal cofrestr gyhoeddus Darparu datganiadau sefyllfa ar gyfer prosiectau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol i sicrhau bod partïon â diddordeb yn cael gwybod y diweddaraf Adrodd i Weinidogion Cymru ar ei waith trwyddedu morol

Tabl 1: Rolau a chyfrifoldebau LIC a CNC

2.3 Nodau ac amcanion

Amcan cyffredinol y prosiect oedd cynnal adolygiad o'r broses trwyddedu morol yng Nghymru o'r dechrau i'r diwedd. Diben yr adolygiad oedd nodi cyfleoedd i wella a symleiddio'r broses drwyddedu, wrth sicrhau y cynhelir gofynion statudol a bod y broses yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru. O ystyried cyd-destun yr adolygiad, cafodd tîm yr astudiaeth gyfarwyddiadau gan LIC i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thrwyddedu prosiectau adnewyddadwy morol ar raddfa fawr (wrth ystyried hefyd y rhwystrau i ddatblygu cynaliadwy yn yr amgylchedd morol).

Roedd yr adolygiad yn ystyried saith o brif cwestiynau ymchwil, wedi'u haralleirio fel a ganlyn:

1) Pa mor dda mae'r broses trwyddedu morol yng Nghymru yn gweithio ar bob cam?

² Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng swyddogaethau trwyddedu morol a chynghori CNC gan ddefnyddio'r termau Trwyddedu Morol CNC (TM CNC) i gyfeirio at swyddogaeth reoliadol NRW, a (Bwrdd) Ymgynghori CNC (Ymg. CNC) i gyfleu SNCB a'r swyddogaethau cynghori technegol

- 2) A oes trefniadau llywodraethu addas ar waith i gefnogi trwyddedu morol gan gynnwys: rolau a chyfrifoldebau; trefniadau adrodd; gwahanu pwerau rhwng y rheolydd a'i ymgynghorwyr?
- 3) A yw'r broses trwyddedu morol yn gyfatebol i'r risgiau sydd ynghlwm, yn addasadwy ei natur ac yn adlewyrchu'r amcanion polisi a'r ddeddfwriaeth berthnasol?
- 4) Pan fydd hefyd angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gan Lywodraeth y DU ar gyfer prosiect penodol, sut mae'r broses hon yn gweithio gyda thrwyddedu morol yng Nghymru, gan gynnwys manteision a heriau bod â dwy broses wahanol?
- 5) A ddysgwyd unrhyw wersi o'r berthynas bresennol rhwng trwyddedu morol yng Nghymru a'r cydsynio dan y Ddeddf Trydan a wnaeth Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phrosiectau ynni adnewyddadwy morol o dan y trothwy 350MW?
- 6) Lle bo angen caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau yn yr amgylchedd morol, beth yw'r gwahaniaethau rhwng prosesau trwyddedu morol a chynllunio tir, ac a oes unrhyw gyfleoedd i symleiddio prosesau a phenderfyniadau?
- 7) A oes unrhyw enghreifftiau o arfer gorau ymhlith rheoleiddwyr trwyddedu morol eraill yn y DU a allai gael eu hystyried yng Nghymru?

Mae'n bwysig nodi fod y cylch gorchwyl heb gynnwys eithriadau trwyddedu morol, apeliadau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu a gorfodi trwyddedu morol.

2.4 Methodoleg a thystiolaeth

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Mai a mis Medi 2022, gan ddefnyddio dulliau cymysg megis cyfweiliadau â rhanddeiliaid, arolwg ar-lein, ymchwil desg, astudiaethau achos manwl, ac enghreifftiau o arfer da gan gyfundrefnau trwyddedu morol eraill. Cafodd tystiolaeth o'r ffynonellau hyn eu dadansoddi a'u triongli i greu cyfres o ganfyddiadau a llywio argymhellion yr astudiaeth. Ceir crynodeb o ffynonellau tystiolaeth yn Nhabl 2.

Dull	Trosolwg
Adolygiad cychwynnol a mapio'r broses	Cyfweiliadau â staff CNC i fapio'r broses a'r llywodraethiant presennol, adolygiad cyflym o ddogfennaeth
Arolwg	Arolwg ar-lein, ar agor i'r rhanddeiliaid â diddordeb: daeth 37 o ymatebion i law
Cyfweiliadau lled strwythuredig	Trafodaeth fanwl o'r broses gydag ymgeiswyr ac ymgynghoreion: 6 o gyfweiliadau sgopio a 27 o gyfweiliadau
Astudiaethau achos	Adolygiad o bump o astudiaethau achos manwl wedi'u grwpio yn ôl sectorau a defnyddio enghreifftiau o achosion (agregau, diwylliant aqua, amddiffynfeydd arfordirol, deunyddiau adnewyddadwy, morlyn llanw)

Adolygiad o ymarfer trwyddedu morol	Nodi arferion gwahanol a dysgu trosglwyddadwy o gyfundrefnau trwyddedu morol Lloegr a'r Alban
--	--

Tabl 2: Ffynonellau tystiolaeth

3. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad, wedi'u strwythuro yn ôl cwestiynau ymchwil.

Wrth ystyried y canfyddiadau hyn, mae'n bwysig cydnabod yr her sy'n deillio o bennu ceisiadau trwyddedu morol, yn enwedig o ran technolegau newydd sbon, lle does dim llawer o sail dystiolaeth o ran effeithiau posibl er mwyn ategu'r broses benderfynu. Mae angen hefyd cydnabod rôl ymgeiswyr yn y broses drwyddedu. Bydd gwell ansawdd ceisiadau, ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn y cyfnod cyn ymgeisio a rhannu data lle bo sector megis dechrau (e.e. deunyddiau adnewyddadwy morol) yn helpu i sicrhau profiad trwyddedu morol symlach.

3.1 Pa mor dda mae'r broses yn gweithio ar bob cam?

Gwerthusiad cyffredinol y tîm adolygu yw bod rhesymeg camau presennol y broses yn gadarn; mae'r heriau'n deillio o gysondeb o ran defnyddio'r rhesymeg hwnnw.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos fod profiadau cymysg ynghylch y broses trwyddedu morol. Er bod enghreifftiau lle mae angen newid, mae hefyd elfennau sy'n gweithio'n dda. Er enghraifft:

- Fel arfer, caiff prosiectau llai (Band 1 a cheisiadau Band 2 llai cymhleth), sef y rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynir i CNC, eu prosesu a'u pennu'n brydlon. Mae data a ddarparwyd gan CNC yn arddangos perfformiad da yn erbyn Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Band 1 (100% o geisiadau'n cael eu penderfynu ar amser) ac ar gyfer Band 2 (89% o geisiadau).
- Lle bo prosesau cyn gwneud cais wedi bod ar waith ar gyfer ceisiadau Band 3, ceir achosion lle mae hyn wedi gweithio'n dda, yn enwedig pan fo cytundebau cyngor ar ddisgresiwn ar waith.
- Roedd rhai o'r farn fod tryloywder y broses ymgynghori yn gadarnhaol, a pha mor llyfn yr oedd y broses benderfynu i raddau pan dderbynnir diweddariadau cynnydd rheolaidd. Mae hefyd proses uwchgyfeirio effeithiol ar waith.

Un ardal sy'n arddangos gwelliant mewn ymateb i dechnolegau newydd yw datblygiad polisïau a chanllawiau gan CNC ynghylch rheoli addasadwy (er mwyn galluogi dull datblygu cam wrth gam). Roedd yr astudiaeth achos deunyddiau adnewyddadwy hefyd yn dangos tystiolaeth o arfer da o ran gweithio ar y cyd rhwng TM CNC ac Ymg. CNC. Er enghraifft, ar gyfer y prosiect ffrwd morol Morlais, cydweithiodd TM CNC ac Ymg. CNC i gytuno ar ddefnydd o reoli addasadwy, a oedd yn golygu bod modd rhoi cydsyniad.

Roedd problemau'n ymwneud â'r broses drwyddedu yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Diffyg eglurder o ran terfynau amser ar gyfer prosiectau mwy cymhleth.** Ystyriwyd y diffyg eglurder o ran terfynau amser ceisiadau Band 3 yn risg allweddol i ddatblygu prosiect. Mae oedi'n arwain at golled ariannol posibl i ddatblygwyr ac yn rhoi polisiau'r llywodraeth i uwchraddio ynni adnewyddadwy i fodloni ymrwymadau sero net mewn perygl. Nododd rhai cyfweleion fod datblygwyr ynni adnewyddadwy yn dechrau edrych ar gyfleoedd prosiect mewn lleoliadau y tu allan i Gymru, a oedd yn cynnig rhagor o sicrwydd o adenillion ar gyfalaf risg a fuddsoddwyd.
- **Adnoddau a chapasiti ar-lein hanesyddol.** Mae'r wefan bresennol yn gymhleth iawn gyda mynediad i'r canllawiau sydd ar gael yn heriol, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses. Mae camau'r broses a'r gofynion yn ddiraidd i rai sydd heb ddechrau ar y broses, ac wedi'u nodi'n 'flwch du' gan gyfweleion. Ymhellach i hyn, does dim system rheoli achosion ar-lein ac nid yw'r ffurflen gais bresennol wedi'i dylunio gan ystyried y defnyddwyr. Mae'n anodd ei golygu ac mae dyblygu rhwng adrannau. Nid yw'r diwygiadau wedi'u dyblygu ledled adrannau, ac os oes angen newid pethau ar y ffurflen, mae'n rhaid ail-gyflwyno'r cais i gyd. Hefyd, cwynodd cyfweleion nad oes modd trafod eu cais eu hunain, na gweld ceisiadau eraill.
- **Dull sydd ddim digon cydweithredol o ran cytuno ar ffyrdd ymlaen.** Roedd pob rhanddeiliad (gan gynnwys ymgeiswyr, ymgynghoreion a TM CNC) yn cydnabod manteision arferion gwaith cydweithredol, ac yn rhannu cyfrifoldeb i ymgorffori diwylliant "trwyddedu yn gyntaf" a oedd yn galluogi mwy. Amlygwyd fod ymgysylltu digonol yn ystod y cam cyn gwneud cais a fforymau ar y cyd yn ddulliau allweddol ar gyfer datblygu'r diwylliant hwn. Nodwyd hefyd fod gan hyn oblygiadau ar adnoddau.
- **Cefnogi ymgeiswyr drwy wella eglurder yn y ffordd y caiff data ei ddefnyddio.** Gofynnodd cyfweleion a oedd wedi gwneud cais am ragor o eglurder o ran sut y caiff data ei ddefnyddio yn y broses benderfynu. Roeddent yn gofyn am ragor o ddefnydd da o'r dystiolaeth orau oedd ar gael, lle bo'n briodol, a thystiolaeth o leoedd eraill os nad yw dystiolaeth Gymraeg ar gael, wrth gydnabod cyfyngiadau, ansicrwydd, a heriau trosglwyddadwyedd. Mae hyn yn awgrymu fod angen proses ffurfiol sy'n nodi sut y gellid trosglwyddo data o leoliadau y tu allan i Gymru, a sut caiff ei ddefnyddio i gefnogi penderfyniadau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- **Rhagweld y dyfodol a sicrhau adnoddau digonol i ateb y galw.** Roedd y cyfweleion o'r farn mai diffyg adnoddau oedd yr her fwyaf yr oedd CNC yn ei hwynebu. Roedd y cyfweleion a CNC yn cydnabod fod angen i CNC allu rhagweld y biblinell adnoddau yn well, gan gynnwys nifer y ceisiadau, yn ogystal â sut y gallai technoleg a'r cyd-destun deddfwriaethol newid. Dylai hyn helpu CNC i ragweld galw am adnoddau, cynllunio'r gweithlu yn effeithiol, ac adeiladu achos i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen i ateb y galw yn y dyfodol.

3.2 A oes trefniadau llywodraethu addas ar waith?

Noda'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn er bod strwythurau llywodraethu ac adrodd ar gyfer trwyddedu morol wedi cael eu rhoi ar waith, mae diffyg eglurder, cynllunio a rheoli rhagweithiol. Mae'r broses ei hun hefyd yn anodd i randdeiliaid allanol ei deall.

- **Mae trefniadau llywodraethu trwyddedu morol yn gymhleth, yn ddryslud ac ychydig yn ddi-draidd.** Mae strwythurau ar waith i ddarparu'r trosolwg (a'r gefnogaeth) angenrheidiol i'r broses trwyddedu morol ond mae cylch gwaith corfforaethol eang iawn CNC yn arwain at heriau o ran darparu llinell glir rhwng uwch swyddogion gweithredol a thimau gweithredol. Mae'r cyfuniad o fyrddau, is-fyrddau a thimau rheoli yn rhoi dibyniaeth sylweddol ar swyddogion unigol i lywio'r strwythur llywodraethu, sy'n golygu bod blaenoriaethu gweithgareddau o ran materion strategol yn anodd. Mae'r diffyg cynllun busnes o ran trwyddedu morol yn effeithio ar allu TM CNC i flaengynllunio a chyfathrebu blaenoriaethau gwella ymhellach.
- **Mae metrigau ar waith i fonitro'r gwaith prosesu ceisiadau, ond mae rheoli perfformiad fel arall yn ymatebol yn bennaf.** Mae TM CNC yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y gwaith prosesu ceisiadau ar gyfer gweithgareddau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPlau; gweithgareddau trwydded sydd â chytundeb lefel gwasanaeth) ac ar gyfer caniatáu/trwyddedu gwaith sydd heb (e.e. ceisiadau am drwyddedau morol Band 3). Mae TM CNC hefyd yn cyfleu digwyddiadau newydd drwy adrodd yn fisol o fewn y Gwasanaeth Caniatáu ehangach, ac sy'n ceisio uwchgyfeirio materion sydd angen datrysiadau corfforaethol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, heb gynllun busnes trwyddedu morol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, mae hi'n anodd rheoli perfformiad yn rhagweithiol. Mae cynllun gweithredu ar waith sy'n ceisio gwella trwyddedu morol, ond mae diffyg blaenoriaethu o ran y nifer fawr o eitemau gweithredu a llinell atebolrwydd ychydig yn aneglur. Heb linell atebolrwydd o'r fath, bydd hi'n anodd cyflawni'r cynllun gweithredu.
- **Weithiau, mae'r ffiniau rhwng rolau trwyddedu morol a chynghori ychydig yn aneglur.** Mae'r berthynas waith agos rhwng y tîm trwyddedu morol, y swyddogaeth SNCB a'r rôl cynghori technegol ehangach yn fuddiol (fel oedd yn glir drwy'r cydweithio effeithiol yn achos Morlais). Roedd dystiolaeth o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn dangos fod ymgeiswyr yn aml yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng rolau'r tîm trwyddedu, rôl yr SNCB a'r rôl cynghorydd morol CNC. Canfyddiad dadansoddiad yr astudiaeth achos fod pryd a sut yr oedd aelodau'r tîm Trwyddedu Morol yn herio'r cyngor a roddir gan y tîm Ymgynghori yn dibynnu ar brofiad yr aelod o'r tîm achos. Er y gellid disgwyl hyn o fewn tîm â lefelau amrywiol o brofiad, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth ar gyfer prosesau penodol lle mae modd herio cyngor, ac ar ba lefel yn hierarchaeth tîm TM CNC.
- **Mae diffyg tryloywder ymysg ymgeiswyr ar y broses trwyddedu morol, a'r rolau a gyflawnir gan Ymg. CNC a TM ar bob cam o'r broses.** Roedd y diffyg tryloywder o ran y broses trwyddedu a'r rolau a chyfrifoldebau staff CNC (rhai cynghori a'r timau

trwyddedu) yn faterion allweddol a nodwyd yn ystod y cyfweiliadau. Yn ogystal â galluogi ymgeiswyr i lywio'r broses yn effeithiol a chyflwyno ceisiadau a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth, mae trylowyder yn agwedd bwysig ar lywodraethu wrth arddangos cydymffurfiaeth. Ymhellach i hyn, roedd rhanddeiliaid y tu allan i CNC yn aml yn ei chael hi'n anodd tracio cynnydd ceisiadau drwy'r broses. Roedd cyfweleion a oedd yn gallu cael diweddariadau rheolaidd yn adrodd profiadau mwy positif. Byddai cyfathrebu gwell i roi gwybod i ymgeiswyr am statws eu ceisiadau a beth fydd yn dod nesaf yn arwain at fanteision ymarferol, a manteision o ran enw da.

3.3 A yw'r broses drwyddedu yn cyfateb i'r risgiau sydd ynghlwm?

Roedd cyfweleion ac ymatebwyr i'r arolwg i ymgeiswyr yn gyffredinol yn beirniadu cyfranoledd y broses drwyddedu. Mynegodd lawer y farn fod CNC yn aml yn anfodlon defnyddio dull ar sail risgiau, yn enwedig o ran technolegau newydd. Mae'r astudiaethau achos yn ategu hyn, gan nodir fod y dull o ran risgiau prosiect i sectorau newydd yn benodol fanwl, o gymharu â sectorau mwy aeddfed. Mae'r astudiaethau achos hefyd yn arddangos anhyblygrwydd o ran y dull trwyddedu ac amharodrwydd i fynd y tu hwnt i'r hyn a nodir yn Neddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MCAA) (fel y'i diwygiad gan Ddeddf Cymru 2017).

Mae dystiolaeth bod rhai ceisiadau gan sectorau newydd yn cael eu hystyried o safbwynt cyfleoedd datblygu i'r dyfodol, yn hytrach na risg y prosiect. Yn ogystal, mae mabwysiadu dulliau rheoli addasadwy er mwyn lleddfu risg prosiectau fel yn y prosiect Morlais er enghraifft yn arddangos parodrwydd CNC i archwilio cyfleoedd ddefnyddio dull ar sail risgiau mewn rhai achosion. Yn ddiweddar, mae Ymg. CNC wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli addasadwy, gan nodi beth yw e, sut gellid ei ddefnyddio a sut gellid ei gymhwyso.

Roedd dadansoddi'r dystiolaeth yn ymwneud â chyfranoledd a risg yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- **Mae rhai yn Ymg. CNC yn amharod i roi materion â llai o risg o'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar y rhai â'r effaith fwyaf.** Roedd y cyfweleion yn cydnabod fod angen i ymgeiswyr ac Ymg. CNC weithredu o fewn ffiniau deddfwriaethol, a bod angen i unrhyw gamau gweithredu a roddir ar waith i roi risgiau o'r neilltu gydymffurfio â'u hymrwymadau cyfreithiol i amddiffyn yr amgylchedd. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn rhan o'r adolygiad, gall Ymg. CNC fabwysiadu dull "deddfwriaeth yn gyntaf" (sy'n ystyried y deddfwriaeth yn rhwystr wrth wneud penderfyniadau) yn hytrach na dull "trwyddedu yn gyntaf" (a galluogi datblygu cynaliadwy o fewn ffiniau deddfwriaethol).
- **Ystyrir fod rheoli addasadwy yn bwysig er mwyn dileu'r risgiau o ran prosiectau, ond mae'n rhaid i'r rheolydd fod yn hyderus yn ei fabwysiadu.** Credir fod dull rheoli addasadwy yn benodol bwysig wrth ymdrin â thechnolegau newydd, lle gall y sail dystiolaeth fod yn wan, ond hefyd ar gyfer rhai sectorau sy'n bodoli eisoes. Fodd

bynnag, bu i'r rhanddeiliaid yn rhan o'r ymgynghoriad gydnabod yr heriau yn hyn o beth, ochr yn ochr ag angen am ragor o eglurder o ran ei ddefnydd a dealltwriaeth gyffredin o beth yw e. Er mwyn rheoli'n addasadwy yn llwyddiannus, mae angen i'r rheolydd gael ei ystyried yn hyderus, bod yn hyderus o ran y rheolau a'r polisi, bod yn fodlon gweithredu a sicrhau pan wneir penderfyniadau, eu bod nhw'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen pe byddai'r effeithiau'n fwy na'r hyn a ragwelwyd.

- **Rhagor o eglurder ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, datblygu cynaliadwy, bioamrywiaeth ac ymrwymadau sero net.** Awgryma cyfweiliadau gyda staff CNC bod rhai ymgeiswyr o bosibl yn camddeall polisi datblygu cynaliadwy ENVO1. Nid yw'r cyfeiriad polisi hwn yn gwrthwneud gofynion deddfwriaethol ar gyfer y broses trwyddedu morol fel y'i diffinnir yn MCAA. Mae angen asesu'r effeithiau amgylcheddol (ochr yn ochr ag effeithiau ar iechyd bodau dynol, diogelwch a llywio, a ffactorau perthnasol eraill y mae'r awdurdod trwyddedu yn credu bod angen eu hystyried), hyd yn oed ar gyfer prosiectau sydd i fod i arwain at fanteision amgylcheddol. Mae presenoldeb y gwahaniaethau hyn yn nodi'r anghenion am ragor o eglurder a chysondeb yn y ffordd y caiff data ei ddefnyddio, a pham. Dylid cyfuno hyn â hyfforddiant i sicrhau bod pob aelod staff yn defnyddio data yn gymwys i gefnogi darpariaeth cyngor a chanllawiau, yn ogystal ag wrth gyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys sicrhau y cynhelir cof sefydliadol i alluogi staff newydd i ymdrin ag achosion presennol yn effeithiol, a dysgu gwersi o achosion blaenorol.

3.4 Sut mae'r broses yn alinio â phrosesau trwyddedu a chysynio eraill?

Cafodd cwestiynau ymchwil 4–6 eu hystyried gyda'i gilydd oherwydd eu perthnasedd i ffyrdd gweithio ehangach yn aliniad prosesau trwyddedu morol Cymru a chysyniadau eraill a phenderfyniadau cyfundrefnau trwyddedu a chysynio eraill. Crynhoir y dadansoddiad o gyfweiliadau, astudiaethau achos a'r adolygiad yn y paragraffau canlynol:

- **Mae alinio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar wahân a'r prosesau trwyddedu morol yng Nghymru yn heriol** oherwydd pwerau datganoledig i ddyfroedd atraeth Cymru lle nad oes modd 'pennu' trwyddedau morol. Mae arferion gwaith tîm TM CNC yn ceisio lleddfu cymhlethdod cymaint ag sy'n bosibl, o ystyried yr heriau deddfwriaethol yn y maes. Dylid parhau â'r defnydd o Femoranda Dealltwriaeth (MOU) gyda phartïon eraill sy'n cydsynio, megis Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiant (BEIS) Llywodraeth y DU ar gyfer DCOau, ac wrth i ragor o ffermydd gwynt alltraeth gael eu hyrwyddo yn nyfroedd Cymru (rhai alltraeth ac atraeth) bydd hi'n bwysig datblygu dealltwriaeth gyffredin o arfer da.
- **Mae'n amlwg fod y berthynas rhwng trwyddedu morol a DCOau yn Lloegr yn fwy syml** o ystyried yr arfer safonol o gynnwys trwyddedau morol wedi'u pennu yn y cais DCO. Mae'n ymddangos fel bod dull yr Alban o ran trwyddedu prosiectau seilwaith mawr, lle nad yw'r Ddeddf Cynllunio (2008) a DCOau yn berthnasol, yn symleiddio'r broses gan

mai MS-LOT yw'r unig corff cydsynio sy'n ymwneud â'r caniatâd. Fodd bynnag, byddai gweithredu dull yr Alban yng Nghymru yn gofyn nad yw DCOau yn berthnasol yng Nghymru, a bydd yn golygu newid newid ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddf Cynllunio (2008) fel y'i diwygiwyd) a chytundeb gan Lywodraeth y DU. Roedd tîm yr adolygiad o'r farn y byddai manteision posibl hyn yn debygol o gael eu gorbwyso gan heriau deddfwriaethol a gweinyddol. Rhywbeth i'w nodi o ddull yr Alban yw'r ffordd y mae'r tîm trwyddedu yn gweithio, a sicrhau adnodd penodol ar gyfer prosiectau mwy a mwy cymhleth. Byddai hyn yn arwain at TM CNC yn gallu ymgysylltu'n amlach yn y ceisiadau hyn am drwyddedau, ond ar draul lleihau gwydnwch ymysg y tîm.

- **Mae'r aliniad rhwng trwyddedu morol a chaniatâd cynllunio'n wynebu heriau tebyg** o ystyried y gofynion, y grwpiau rhanddeiliaid a'r arferion ymgynghori amrywiol sydd i'w gweld yn y ddwy broses. Eto, rheolir aliniad drwy arferion gwaith da. Gellid cryfhau hyn drwy ddefnyddio concordat arfordirol, fel sydd ar waith yn Lloegr. Mae tystiolaeth o ohirio Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn digwydd ar sail achosion unigol, a bod ag un awdurdod arweiniol a fyddai'n rhoi sicrwydd i ddatblygwyr. Fan hyn, mae'r her yn ymwneud â graddfa dyfroedd atraeth Cymru sydd wedi'u hamddiffyn, ac felly mae angen i'r rhan fwyaf o geisiadau fod ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Er y byddai dull concordat yn symleiddio'r ymgynghoriad i raddau, byddai'r broses o asesu a phennu prosiectau â chaniatâd deuol yn cynnwys HRA gan CNC, waeth pwy fyddai'r awdurdod arweiniol. Gallai cydlynid ag Awdurdodau Cymwys eraill, fel y'i nodir yng nghanllawiau HRA Cymru a Lloegr, helpu i alinio'r broses ymhellach.

4. Argymhellion

Mae'r bennod hon yn cyflwyno crynodeb o argymhellion strategol yr adolygiad.

4.1 Cyflwyniad

Ar y cyfan, mae'r broses drwyddedu yn gweithio'n dda ar gyfer ceisiadau Band 1 a 2 symlach. Ar gyfer rhai prosiectau mwy cymhleth, yn enwedig Band 3, nododd ymgeiswyr bod diffyg eglurder ynghylch terfynau amser, a diffyg cyfnod penderfynu penodol, yn arwain at risgiau sylweddol i ddatblygiad prosiectau, gydag oedi'n arwain at golled ariannol posibl. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu fod llu o ffactorau'n effeithio ar benderfyniadau amserol – ac ni fyddai unrhyw argymhelliad ar ben ei hun yn cyflymu'r broses o benderfynu ceisiadau.

Ymhlith y ffactorau sy'n arwain at ansicrwydd cynyddol ynghylch penderfyniadau amserol mae:

- Problemau posibl ddim yn dod i'r wyneb drwy ymgysylltu effeithiol rhwng ymgeiswyr a CNC cyn gwneud cais.
- Swyddogion achos amhrofiadol yn rhoi cyngor heb wybodaeth gorfforaethol (yn enwedig pan fydd staff yn newid wrth wneud cais) yn arwain at ragor o fynd a dod rhwng ymgeiswyr ac TM CNC.
- Newidiadau i gyngor, neu anghytuno yn hynny o beth, yn ystod y broses ymgeisio a all arwain at ail-gyflwyno ac adolygiadau cyfreithiol.
- Ymgynghori sawl gwaith ar fân broblemau.
- Oedi rhwng hysbysu am gymeradwyaeth a derbyn y drwydded forol, sy'n golygu nad oes modd dechrau ar y gwaith.

Efallai nad yw cael cytundeb lefel gwasanaeth yn diffinio terfynau amser ar gyfer ceisiadau am drwyddedau Band 3 yn briodol, oherwydd nodweddion penodol bob cais. Eto i gyd, mae eglurder o ran terfynau amser yn bwysig er mwyn galluogi ymgeiswyr i gynllunio a chyflwyno eu ceisiadau yn brydlon.

Mae'r argymhellion isod yn dilyn pecyn strategol a mesurau a fyddai, at ei gilydd, yn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr adolygiad dros y tymor canolig (12–18 mis). Byddant yn rhoi trwyddedu morol mewn gwell sefyllfa i gyflawni amcanion polisi LIC ac ateb y galw a ragwelir ar gyfer gweithgareddau trwyddedu morol. Mae'r argymhellion wedi'u fframio o ran deilliannau gofynnol, gyda chrynodeb bras o'r achos dros newid. Rydym yn cydnabod pa mor heriol yw cyflawni'r argymhellion hyn, a byddant yn golygu adnoddau priodol ac ymrwymiad ar lefel uchel yn LIC a CNC. Mae gan ddatblygwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant ran i'w chwarae i gefnogi dyheadau'r sector, gan

gynnwys ymdrech o'r newydd i weithio ar y cyd a chyfathrebu â LIC a CNC, ymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol cyn gwneud cais, a chydweithio i gasglu a rhannu tystiolaeth.

4.2 Pennu hunaniaeth gorfforaethol unigryw ar gyfer trwyddedu morol

Yr achos dros newid

Mae dadansoddi tystiolaeth yr adolygiad hwn yn arddangos nad oes gan drwyddedu morol hunaniaeth gorfforaethol unigryw yn CNC.

- O ran strwythurau a llywodraethu, mae trefniadau presennol CNC yn gymhleth, oherwydd ei gyfrifoldebau amrywiol, gan gynnwys cynghorydd statudol, rheolydd a thirberchennog. Mae llywodraethu corfforaethol CNC y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, nodir fod ystod cyfrifoldebau CNC wedi'i gwneud hi'n anodd ystyried nodweddion penodol y swyddogaeth trwyddedu morol ar wahân i weddill swyddogaethau rheoliadol CNC.
- O safbwynt cwsmer, does dim llawer o wybodaeth am drwyddedu morol ar wefan CNC, ac mae'r wybodaeth sydd yno yn anodd ei chanfod. Mae hi'n anodd deall sut mae trwyddedu morol yn gorwedd ochr yn ochr â swyddogaethau eraill CNC.

Deilliannau a argymhellir

- Ystyrir bod trwyddedu morol yn swyddogaeth unigryw gyda CNC i ddarparu ffocws ar ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r adnoddau a fydd yn galluogi datblygiad y swyddogaeth yn unol ag argymhellion yr adolygiad hwn.
- Mae'r canllawiau ar-lein ar wefannau CNC a LIC yn eglur ac yn hygyrch, i sicrhau y gall ymgeiswyr a rhanddeiliaid ddeall beth yw cylch gwaith morol CNC, a rôl trwyddedu morol yn hyn o beth.

4.3 Dull strategol o ran cynllunio a dod o hyd i adnoddau, i sicrhau bod yr adnoddau hynny'n ddigonol i ateb y galw cynyddol

Yr achos dros newid

Mae'r llwyth gwaith trwyddedu morol wedi tyfu, heb gynnydd o'r fath mewn adnoddau. Mae maint y llwyth gwaith wedi arwain at ddull darpariaeth ymatebol, sydd yn aml wedi cyfaddawdu amser neu adnoddau i gyflawni gwelliannau. Prin yw'r dystiolaeth o ddull cynllunio strategol strwythuredig a systematig i fodloni anghenion gweithgareddau trwyddedu morol yn y dyfodol, sy'n golygu bod CNC yn ei chael hi'n anodd "paratoi at y dyfodol".

Deilliannau a argymhellir

- Rhagor o bwyslais ar gynllunio strategol o ran trwyddedu morol CNC gan gynnwys sganio'r gorwel am 10 mlynedd; gweledigaeth pum mlynedd a dogfen strategaeth. Yn gysylltiedig â hyn, cynllun busnes blynyddol gan gynnwys metrigau llwyddiant y cytunwyd arnynt (yn adeiladu ar KPlau presennol), gan ddefnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys o bosibl.³
- Bydd systemau rheoli mewnol yn cael eu datblygu a all gyfleu'n gywir yr amser sy'n cael ei dreulio ar weithgareddau i nodi tueddiadau llif gwaith, darparu sail ar gyfer adferiad cost cywir, a gwaelodlin gadarn ar gyfer cynllunio i'r dyfodol.
- Bydd cynllunio gweithlu, dod o hyd i adnoddau a datblygu sgiliau'n cael ei baru â galw i'r dyfodol ar sail rhagamcan o'r gweithgareddau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i ateb y cynnydd disgwyliedig mewn trwyddedu morol. Dylai hyn gynnwys rhagolygon gorwel 5 mlynedd, 3 blynedd, 2 flynedd, 12 mis, 6 mis a 3 mis, gyda lefelau cynyddol o sicrwydd ar bob gorwel, a gallu i gynllunio a blaenoriaethu gweithgareddau.
- Strategaeth recriwtio a hyfforddiant (o ystyried y gystadleuaeth ar gyfer sgiliau prin) sydd â'r nod o gefnogi staff presennol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ateb y galw yn y tymor canolig i'r tymor hir drwy bartneriaeth well gyda'r sector addysg uwch.
- Bydd ffioedd a chostau trwyddedu morol yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y broses yn adennill costau'n llawn, yn unol â dyheadau LIC.

³ Mae'r [Cerdyn Sgorio Cytbwys](#) yn ddull a ddefnyddir yn aml o gyfuno ystod o fetrigau (proses, cyllid, pobl a thwf, rhanddeiliaid allweddol fel arfer)

4.4 Gwella tryloywder, eglurder y broses ac effeithlonrwydd

Yr achos dros newid

Nid yw'r dadansoddiad a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn awgrymu unrhyw newid sylfaenol i resymeg camau'r broses o ran trwyddedu morol, sydd wedi'u llywio gan ofynion statudol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a'r canllawiau yn dameidiog ac yn anodd eu canfod, gyda llawer o ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd deall yr hyn a ddisgwylir, pam ac ym mha ffurf. Fel y'i nodwyd yn Adran 4.2, mae gan y broses drwyddedu ddiffyg tryloywder ac adnoddau ar-lein, ac nid yw'r capasiti'n addas at y diben. Mae hyn yn arwain at oedi diangen yn y broses drwyddedu a chynnydd yn y terfynau amser ar gyfer penderfynu.

Deilliannau a argymhellir

Byddai'r deilliannau a argymhellir canlynol yn gwneud y broses yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan leihau'r terfynau amser cyffredinol ar gyfer penderfynu:

- Rheolir trwyddedu morol drwy borth ar-lein i ddarparu rhyngwyneb cydlynol a chlir sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Byddai hyn yn galluogi ffyrdd mwy effeithlon o weithio, mwy o gyfleoedd hunanwasanaeth a'r gallu i ymgeiswyr fynd drwy'r system yn fanwl er mwyn deall cynnydd a statws eu cais.
- Dylai datblygiad y porth (a'r seilwaith TG ategol) fod ochr yn ochr â rhaglen o newid i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, manteisio i'r eithaf ar lifau gwaith ac uchafu'r manteision (i CNC ac ymgeiswyr). Dylid ymchwilio i fabwysiadu fersiwn wedi'i theilwra o borthau trwyddedu morol presennol er mwyn lleihau'r costau datblygu, gan gynnwys y System Rheoli Achosion Morol (MCMS) sy'n cael ei defnyddio gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a datblygiad digidol Marine Scotland i'r dyfodol.
- Mae adennill costau yn seiliedig ar ddadansoddiad llawn o'r amser sy'n cael ei dreulio ar geisiadau, yn enwedig ar gyfer Band 2, i wahaniaethu rhwng prosiectau syml a chymhleth. Mae angen i hyn weddu i gynllunio'r gweithlu.
- Dull ar sail risgiau i drwyddedu morol a all leihau'r amseroedd penderfynu, drwy gael amodau wedi'u cytuno ymlaen llaw ar gyfer gweithgareddau â llai o risg er enghraifft.
- Consensws ymysg rheoleiddwyr trwyddedu morol ledled y DU ar feysydd alinio o fewn prosesau trwyddedu morol a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu i wella cysondeb a darparu rhesymeg dros wahaniaethau lle bo'n briodol.

4.5 Arferion gwaith cydweithredol a rhagor o ffocws ar alluogi

Yr achos dros newid

Er bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dda ar y cyfan, mae achosion lle gellid gwella, yn enwedig o ran sicrhau bod lefel ymgysylltiad cywir (e.e. rhwng cyfarwyddwyr). Yn ogystal, mae angen i bob parti sicrhau bod yr ymgysylltiad yn galluogi ac yn gydweithredol, yn enwedig yn ystod y broses cyn gwneud cais.

Deilliannau a argymhellir

- Mae perthnasoedd cryf rhwng CNC a datblygwyr allweddol yn y sector y tu allan i'r broses ymgeisio yn parhau. Mae'r perthnasoedd hyn yn caniatáu i bob parti ddeall y cyd-destun o ran gwneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu priodol ar lefel uwch, cyfnewid rhwng y diwydiant/CNC, ac ymgysylltiad priodol yn ystod y broses ymgeisio, gan gynnwys ymweliadau safle.
- Mae cyfleoedd ar gyfer trafodaethau anffurfiol a hyblyg rhwng ymgeiswyr ac TM CNC / Ymg. CNC yn y cyfnod cyn gwneud cais i ddeall materion, magu hyder ar y cyd, gosod disgwyliadau ar gyfer ansawdd ceisiadau ac annog adnabod effeithiau andwyol posibl yn gynnar. Mae bob parti yn cydnabod yr angen i gydweithio yn adeiladol ac yn hyblyg (ac o fewn y ffin ddeddfwriaethol), a bod manteision y cyfnod cyn ymgeisio yn cael eu cyhoeddi drwy astudiaethau achos i annog mwy o ddefnydd.
- Cynhelir archwiliad rheolaidd y tu mewn i CNC a chyda rhanddeiliaid allanol (o bosibl gan ddefnyddio'r arolwg o'r adolygiad hwn fel gwaelodlin) i dracio cynnydd a nodi meysydd penodol ar gyfer gwella.
- Adolygir y broses ymgynghori i ddatblygu opsiynau ar gyfer rhagor o fynediad a dealltwriaeth gyhoeddus (er enghraifft, gan ddefnyddio fideo bras i amlinellu pwrpas y cais a'r broses ymgeisio).

4.6 Rolau a swyddogaethau trwyddedu morol

Yr achos dros newid

Ar hyn o bryd, mae diffyg eglurder o fewn sylwadau gan Ymg. CNC o ran pa swyddogaeth statudol y mae eu cyngor yn berthnasol iddi, sy'n ei gwneud hi'n anodd blaenoriaethu'r camau gweithredu ynghylch y cyngor hwn. Noda'r dystiolaeth o'r adolygiad fod hyn yn achosi dryswch ymysg rhanddeiliaid allanol. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, mae diffyg arbenigedd technegol o fewn TM CNC, sy'n arwain at orddibyniaeth ar Ymg. CNC, ac oedi o ran prosesu ceisiadau.

Deilliannau a argymhellir

- Mae eglurder i randdeiliaid a TM CNC ar sut mae cyngor gan Ymg. CNC yn berthnasol i gyfrifoldebau statudol, gan gynnwys cyfrifoldebau'n ymwneud â Rheoliadau Cynefinoedd, Parthau Cadwraeth Morol (MCZau), Rheoli Risgiau Llifogydd ac Arfordirol (FCRM) a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Os nad yw cais yn bodloni'r safon ofynnol, mae eglurder ar y gofynion statudol perthnasol (e.e. amcanion cadwraeth, dangosyddion WFD, polisïau cynlluniau rheoli traethlinau). Mae hyn yn galluogi rhagor o atebolrwydd ar sut y defnyddir cyngor technegol a rhagor o eglurder ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth y flaenoriaeth o'r farn dechnegol sydd ar gael.
- Mae gan TM CNC y capasiti technegol yn y tîm i adolygu ac asesu agweddau technegol ar EIA sydd heb eu cynnwys gan ymgynghoreion statudol perthnasol (e.e. SNCB, llywio) yn ogystal ag agweddau llai cymhleth o gais, ac nid oes angen iddynt ddibynnu ar Ymg. CNC ar gyfer yr arbenigedd hwn.
- Mae'r holl randdeiliaid yn ymwybodol o rolau swyddogaethol CNC a LIC o ran trwyddedu morol.

4.7 Defnyddio'r dystiolaeth orau a'r wyddoniaeth gadarn sydd ar gael i alluogi dull trwyddedu morol mwy cyfatebol

Yr achos dros newid

Mae'r adolygiad yn amlygu absenoldeb fframwaith strategol a chanllawiau gweithredol ar ddefnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau. Mae diffyg eglurder a chysondeb o ran cyngor ar a oes modd defnyddio tystiolaeth neu ddata presennol o leoliadau y tu allan i Gymru neu o sectorau gwahanol. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch cyfranoled, yn cynyddu'r baich ar ymgeiswyr a CNC, ac yn cynyddu'r amser sydd ei angen i gasglu data. Er bod angen cydnabod y cyd-destun penodol ar gyfer pob achos, mae sail glir a chyson dros wneud penderfyniadau yn bwysig. Mae angen dull seiliedig ar risgiau o ran gofynion tystiolaeth wrth benderfynu, ochr yn ochr â datblygu capasiti a gallu i fod â'r hyder a'r cymhwysedd i wneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael.


Deilliannau a argymhellir

- Datblygir dull strategol o ddefnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau morol. Ymhlith yr enghreifftiau ble mae hyn wedi'i wneud yn y gorffennol mae Strategaeth Dystiolaeth MMO 2021 - 2025⁴ a oedd yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth⁵ ac egwyddorion cyngor gwyddonol ar gyfer penderfynwyr.⁶
- Datblygir ymateb gweithredol i'r dull strategol hwn a allai gynnwys:
 - Arweiniad technegol ar gasglu data.
 - Adolygiadau cyfnodol o fonitro cyflwr ar ôl cael caniatâd i ddeall effeithiolrwydd amodau, cywirdeb yr effeithiau a ragwelir a llywio penderfyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys o dan ba amodau y gellid dileu effeithiau â llai o risg yn gynt yn y broses drwyddedu.
 - Canllawiau ar sut i ystyried ceisiadau ar draws awdurdodaethau.
 - Hyfforddi staff i gysoni'r dull strategol ac adeiladu hyder a chymhwysedd wrth ddefnyddio dull ar sail risgiau lle bo'n briodol. Dylai hyn gynnwys, lle bo'n briodol, defnyddio dull rheoli yn y cais wrth ddelio â sectorau y tu hwnt i ddeunyddiau adnewyddadwy morol.

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/evidence-strategy-for-the-marine-management-organisation-mmo-2021-2025>

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/scientific-advice-to-government-principles/principles-of-scientific-advice-to-government>

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/scientific-and-engineering-advice-guidelines-for-policy-makers>



icf.com



twitter.com/ICF



linkedin.com/company/icf-international



facebook.com/ThisIsICF



[#thisisicf](https://instagram.com/#thisisicf)

Gwybodaeth am ICF

Mae ICF (NASDAQ:ICFI) yn gwmni ymgynghori a gwasanaethau digidol byd-eang gyda dros 7,000 o weithwyr amser llawn a rhan amser, ond nid ydym yn ymgynghorwyr arferol. Yn ICF, mae dadansoddwyr busnes ac arbenigwyr polisi yn cydweithio â strategaethwyr digidol, gwyddonwyr data a gweithwyr creadigol. Rydym yn cyfuno arbenigedd diwydiant heb ei ail a gallu ymgysylltiad o'r radd flaenaf i helpu sefydliadau i ddatrys eu heriau mwyaf cymhleth. Ers 1969, mae cleientiaid yn y sector cyhoeddus a phreifat wedi gweithio ag ICF i lywio newid a siapio'r dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth ar icf.com.